tap. hoffi. sgrôl.
mae skinny jeans yn ôl!
tap. hoffi. snap.
dileu Palesteina o'r map.
tap. hoffi. clic.
sbia, cath yn chwarae tric!
tap. hoffi. ping.
ydy Gaza dal yn thing?

oeda.
sobra o sbri y sgrôl, a gwranda.
taflegrau'n peri dagrau.
gobaith yn ceulo'n y craciau.
ŵyn di-fugail, clyw di eu cri?
deugain mil... a dal i gyfri.

cadi glwys

O e d f a o n

Mehefin 9, 2024
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

Mehefin 16, 2024
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gwilym Wyn Roberts

Mehefin 23, 2024
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

Gofalaeth Glannau Ogwr
glannauogwr.cymru
Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

Tabernacl, Porthcawl
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

Gweinidog
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com

Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr
KOINONIA
Gofalaeth Glannau Ogwr Rhifyn 94 Mehefin 2, 2024

Papwa Gini Newydd

Yn wyneb y tirlithriad dinistriol diweddar sydd wedi dod â thristwch a chaledi i bobl Papwa Gini Newydd rydym y neu cofio yn ein gweddïau. Fel Cristnogion, fe'n gelwir i ysgwyddo beichiau ein gilydd ac i wylo gyda'r rhai sy'n wylo (Galatiaid 6:2, Rhufeiniaid 12:15).

Mae'r Beibl yn ein hatgoffa bod Duw gyda ni hyd yn oed yn y dyffrynnoedd tywyllaf. Mae Salm 34:18 yn dweud wrthym, "Mae'r ARGLWYDD yn agos at y rhai sydd wedi torri eu calonnau."

Gweddïwn y bydd pobl Papwa Gini Newydd yn teimlo presenoldeb cysurus Duw ac y bydd Ei dangnefedd, sy'n rhagori ar bob deall, yn gwarchod eu calonnau a'u meddyliau yng Nghrist Iesu (Philipiaid 4:7).

Yn y cyfnod anodd hwn, gadewch inni ddod at ein gilydd fel corff Crist, fel teulu Cwm gan gefnogi ein gilydd trwy weddi, anogaeth, cariad a gwasanaeth. Rydym yn annog holl Gristnogion y byd i weddïo'n daer dros y rhai y mae'r drasiedi hon yn effeithio arnynt. Gweddïwch am gysur i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid, am iachâd i'r rhai sydd wedi'u hanafu, ac am ddarpariaeth a lloches i'r rhai sydd wedi colli eu cartrefi.

GWEDDI DROS DDIODDEFWYR Y TIRLITHRIAD A'U TEULUOEDD YM MHAPUA GUINEA NEWYDD.

Dduw trugarog, down atat â chalonnau'n llawn galar a thosturi dros bobl Papua Guinea Newydd. Cyflwynwn i ti y cymunedau a ddifrodwyd gan y tirlithriad diweddar ynghyd â'r rhai sy'n gweithio i achub bywydau.

Rhannwn alar ein chwiorydd a'n brodyr yn Nhalaith Enga a gweddiwn y bydd y cymorth a'r achubiaeth sydd fawr ei angen yn cyrraedd y cymunedau yno mewn pryd. Gweddiwn y deir o hyd i fwy o bobl yn fyw a bydd teuluoedd yn gyflawn unwaith eto.

Dduw cariad, gofynnwn i Ti fwrw dy gysgod dros y rhai a gollodd anwyliaid, cartrefi a bywoliaethau. Dyro gysur i'r tor-calonnus a heddwch i'r rhai sy'n llawn ofn a phryder.

Gweddiwn dros ein chwiorydd a'n brodyr yn Eglwys Unedig Papua, Guinea Newydd, ar iddynt fod yn begynau gobaith ac yn ffynonellau cysur. Bendithia eu hymdrechion, ynghyd ag ymdrech llywodraethau canolog a lleol, staff meddygol, a'r holl wirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddiflino i ddarparu cymorth a rhyddhâd. Rho iddynt ddoethineb, amynedd, a gwydnwch wrth iddynt wasanaethu eu cymunedau.

Gweddiwn hefyd am ymateb ar frys gan y llywodraeth a'r eglwysi i'r argyfwng ym Maip Mulitaka. Bydded i bob un blygu glin mewn gweddi dros yr ardaloedd a effeithir a chynnig pob cymorth a help posibl.

Dduw'r iachawr, yn wyneb dinistr a cholled, bydded i'th bresenoldeb fod yn amlwg. Bydded i'th gariad lifo drwy bob llaw sy'n helpu ac ymhob gweithred o garedigrwydd. Cynorthwya pobl Papua Guinea Newydd i fedru ail-adeiladu eu bywydau a'u cymunedau gyda dewrder a ffydd.

Dduw'r Creawdwr, iacha dy greadigaeth a phob peth byw yn Maip Mulitaka. Adfer y tir a'r amgylchedd a ddifrodwyd gan y drychineb hon. Bydded i'th gyffyrddiad iachusol gyrraedd pob creadur a effeithir, gan adnewyddu a chynnal bywyd ynghanol y difrod hwn.

Ymddiriedwn yn y cariad a'r trugaredd dwyfol nad yw'n pallu, gan gredu y gelli di ddwyn prydferthwch o'r llwch a throi'r digalondid yn obaith. Erys ein gobaith a'n ffydd yng Nghrist ein Harglwydd.

Bydded i'th oleuni ddisgleirio ym Mhapua Guinea Newydd, yn awr ac hyd byth. Gweddiwn yn enw Iesu. Amen.



Bore Mawrth am 10:30yb bydd Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM ar gyfer yr ofalaeth. Bydd Dylan, Dyfrig Rees a sawl un arall yn mynychu cynhadledd CWM yn Durban, De Affrica 10-20fed o Fehefin. Fel rhan o baratoadau ar gyfer y gynhadledd gofynnir I ni gynnal Astudiaeth feiblaidd yn lleol cyn y gynhadledd I drafod y thema. Dyma'r themau:

- Transforming Power
- Revisioning Mission
- Building Life-flourishing Communities

Os hoffech fod yn rhan o'r astudiaeth feiblaidd, bydd linc yn cael ei anfon ar ebost.